ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Oriau gwaith a ganiateir i sicrhau iechyd, lles, diogelwch ac addysg plant

## Pawb sy'n 14 oed a hŷn

**Dydd Llun i ddydd Sadwrn – nid cyn 7am nac ar ôl 7pm**
**Dydd Sul – 2 awr yn unig – nid cyn 7am nac ar ôl 7pm**

## Yn ystod y tymor ysgol

Diwrnodau ysgol – ni ellir cyflogi plant am fwy na 2 awr ar ddiwrnod y mae rhaid iddynt fynd i'r ysgol neu ar ddydd Sul.

## Dydd Sadwrn a gwyliau ysgol

**14 oed**
Dydd Sadwrn a gwyliau ysgol – uchafswm o 5 awr y dydd
Dim mwy na 25 awr yr wythnos

**15 oed a hŷn**
Dydd Sadwrn a gwyliau ysgol – uchafswm o 8 awr y dydd
Dim mwy na 35 awr yr wythnos

Gellir cyflogi rhai o dan 14 oed i wneud gwaith ysgafn rhan-amser os yw is-ddeddfau lleol yn caniatáu.

**Ni chaniateir cyflogi plentyn am fwy na 4 awr heb o leiaf 1 awr o seibiant gorffwys a hamdden.**

**Ni chaniateir cyflogi plentyn ar ddydd Sul am fwy na 2 awr rhwng 7am a 7pm.**

**Rhaid i bob plentyn gael o leiaf 2 wythnos o wyliau yn olynol bob blwyddyn.**

**Ni chaniateir cyflogi plentyn am fwy na 12 awr o waith mewn unrhyw wythnos unigol yn ystod y tymor ysgol.**

### Is-ddeddfau lleol

Er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth mae gan awdurdodau lleol y pŵer i wneud is-ddeddfau lleol mewn perthynas â chyflogi plant yn eu hardal.

Gall is-ddeddfau lleol wahaniaethu rhwng plant o wahanol oedrannau a rhywiau a rhwng gwahanol leoliadau, crefftau, galwedigaethau ac amgylchiadau. Felly, gall is-ddeddfau lleol gyfyngu ymhellach ar yr amodau a'r oriau gwaith y gellir ymgymryd â hwy a natur y gwaith a ganiateir.

Gall is-ddeddfau lleol awdurdodau lleol gynnwys rhestr o waith gwaharddedig lle na ellir cyflogi unrhyw blentyn o unrhyw oedran.

Gall cynnwys a strwythur is-ddeddfau lleol amrywio rhwng awdurdodau lleol. Felly, dylai rhieni/gofalwyr a chyflogwyr holi'r awdurdod lleol perthnasol i gael gwybod a oes unrhyw reolau lleol a allai fod yn gymwys iddynt.

OGL © Hawlfraint y Goron 2021 WG42523